**CYNGOR BRO MORGANNWG**
**(GWAHARDD A CHYFYNGU AR AROS A LLWYTHO A PHARCIO) A GWAHARDD PARCIO A STOPIO DROS NOS (GORFODI SIFIL) (DIWYGIO) (RHIF 4) 2025**

1. Hysbysir drwy hyn fod Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn a fydd yn diwygio'r cyfyngiadau parcio yn y lleoliadau a nodir yn yr Atodlenni isod.
2. Gellir gweld manylion llawn y cynigion, a fydd yn cynnwys copi o gynllun T/25/33/WS, ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau sydd gennych i'r cynnig hwn i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf.IF932) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk erbyn **30 Mai 2025** ac mae'n rhaid cynnwys eich rhesymau dros wrthwynebu.
3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn arfaethedig.

Mae'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol i'w ddiwygio fel a ganlyn:
**Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodi Sifil) 2013**

**ATODLEN**

**Atodlenni Mapiau AN65 AO65 AP65 AP64 AQ65 AR65 - Penarth**

**Gwaharddiad Arfaethedig ar Barcio ac Aros Dros Nos i Gartrefi Modur, Carafanau Modur a Camperfaniau - 6pm tan 8am 7 Diwrnod yr Wythnos**

**Plymouth Road**
O'r gyffordd â Raisdale Road i'r gyffordd â Forrest Road i gyfeiriad y de am oddeutu 408 metr.

**Craven Walk**
O'r gyffordd â Rhodfa Knowbury i'r gyffordd â Whitcliffe Drive, i gyfeiriad y dwyrain am oddeutu 90 metr.

**Forrest Road**
O'r gyffordd â Plymouth Road i'r ffordd bengaead, i gyfeiriad y dwyrain am oddeutu 173 metr.

**Stanton Way**
O'r gyffordd â Rhodfa Knowbury i'r gyffordd â Whitcliffe Drive, i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain am oddeutu 95 metr.

**Ar hyd y ffyrdd cyfan canlynol:**
Trem y Môr
Cliff Side
Y Padog
Whitcliffe Drive

Dyddiedig 8 Mai 2025
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai
Cyngor Bro Morgannwg, Depo'r Alpau, Gwenfô. CF5 6AA.